IS-BWYLLGOR DATBLYGU GWLEDIG

RURAL DEVELOPMENT SUB-COMMITTEE

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

02 Mawrth 2010

Annwyl Weinidog,

Ymchwiliad i Glastir

Penderfynodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gynnal ymchwiliad byr i Glastir wedi i bryderon ynghylch y cynllun newydd hwn gael eu dwyn i sylw Aelodau'r Pwyllgor gan randdeiliaid amrywiol. Fy mwriad wrth ysgrifennu atoch heddiw yw eich hysbysu o gasgliaidau'r ymchwiliad.

Tystiolaeth

Fel rhan o'r ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyswllt Amgylcheddol Cymru, y Grwp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ar 16 Chwefror 2010. Cyflwynodd Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol adroddiadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â dwy fferm yn ardal Dolgellau i glywed barn ffermwyr a rheolwyr tir yn uniongyrchol.

Casgliadau

Roedd diffyg gwybodaeth yn thema a godai'i phen yn gyson yn y dystiolaeth; mae'n holl bwysig bod Llywodraeth Cymru'n darparu gwybodaeth briodol i ffermwyr ar effaith Glastir, sut y bydd yn gweithio, a'r trefniadau pontio a fydd ar waith.

Yn sgil ei ymchwiliad, mae'n amlwg i'r Pwyllgor bod rhanddeiliaid yn ansicr iawn ynghylch y cynllun newydd a sut y caiff ei weithredu. Mae'r Is-bwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r materion a nodir isod cyn cyflwyno'r cynllun newydd. Os nad yw'n bosibl cyflawni hyn yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8009
E-bost / Email: ruraldev.comm@wales.gsi.gov.uk

1) Pa mor rhwydd yw cael mynediad i'r Cynllun?

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod canlyniadau cychwynnol y profion ar y system pwyntiau ar gyfer Glastir wedi dangos bod llawer o ffermwyr yn ei chael yn anodd ennill y 28 pwynt angenrheidiol am bob hectar yn y fferm gyfan i gael mynediad i'r cynllun.

Clywodd y Pwyllgor bod ffermwyr a oedd yn rhan o gynllun Tir Gofal yn wynebu anawsterau arbennig am eu bod eisoes wedi gwneud llawer o'r gwaith a fyddai wedi ennill pwyntiau iddynt o dan amodau Glastir. Clywodd y Pwyllgor y bydd hyn yn creu problemau arbennig i ffermwyr Tir Mynydd sydd â chytundebau Tir Gofal yn barod, ac i ffermwyr llaeth.

Rhaid i'r cynllun fod yn hygyrch i ystod eang o ffermwyr os bydd yn cyflawni ei amcanion, ac mae'r Is-bwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i addasu'r system pwyntiau i'w gwneud yn haws i ffermwyr ymuno â'r cynllun.

2) Adnoddau a gallu

Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes darpariaeth yn y cynigion cyfredol ar gyfer cymorth gan swyddog prosiectau ar gyfer lefel mynediad Cynllun Glastir. Mynegwyd pryder dwys am y sefyllfa yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, yn arbennig gan y bydd mynediad i gynllun Glastir yn gofyn am newid diwylliant i lawer o ffermwyr a oedd gynt yn rhan o gynllun Tir Mynydd ond nad oeddent yn rhan o gynllun Tir Gofal. Gwelodd y Pwyllgor fod consensws y dylai cymorth swyddog prosiectau fod ar gael yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, neu y dylai taliadau Glastir gynnwys elfen a fyddai'n galluogi ffermwyr i brynu eu cyngor eu hunain yn allanol.

Cred y Pwyllgor, yn absenoldeb cymorth o'r fath, bod perygl y bydd cyfranogwyr yn dewis y presgripsiynau rhataf neu rwyddaf i'w gweithredu yn hytrach na'r rhai sydd fwyaf priodol ac o'r budd mwyaf i'r amgylchedd. Hefyd, mae diffyg cymorth swyddog prosiectau yn y cam gwneud cais yn debygol o arwain at fwy o bwysau ar swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth y Cynulliad gan y bydd yn rhaid iddynt ymdrin â mwy a mwy o ymholiadau gan ffermwyr, ac ymdrin â ffurflenni sydd wedi'u cwblhau'n anghywir.

Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i adolygu ei benderfyniad i beidio â darparu cymorth swyddog prosiectau ar gyfer y cynllun lefel sylfaenol ac i ystyried a oes gan ei swyddfeydd y gallu i ymdrin â galw cynyddol am gymorth gan ffermwyr a fyddai'n deillio o hynny o bosibl?

3) Mwy nag un ffermwr yn defnyddio'r un tir

Mynegwyd pryderon wrth y Pwyllgor ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2009 na fyddai bellach yn bosibl i ddau berson gwahanol hawlio o dan y Cynllun Taliad Sengl a'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer yr

un darn o dir. Yn ogystal â mynd yn groes i berthnasoedd sydd wedi'u sefydlu rhwng y tirfeddiannwr/tenant, cymhlethir y broblem ymhellach gan y gofyn bod cytundeb tenantiaeth yn bod dros gyfnod pum mlynedd llawn cytundeb Glastir.

Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod penderfyniad Llywodraeth Cymru'n deillio o ddyfarniad Llys Archwilwyr Ewrop, deallwn fod DEFRA a Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu parhau â'r arfer o fwy nag un ffermwr yn defnyddio'r un tir o fewn eu cynlluniau amaeth-amgylcheddol hwy.

Hoffem gael eglurhad gan Lywodraeth Cymru pam y mae wedi penderfynu terfynu taliadau ar gyfer mwy nag un ffermwr sy'n defnyddio'r un tir yng Nghymru? Mae'r Pwyllgor hefyd am annog Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad ar effaith y newid ar dirfeddianwyr a thenantiaid yng Nghymru, a'r effaith y mae'n debygol o'i chael ar nifer y ffermwyr sy'n gwneud cais i ymuno â'r cynllun.

4) Gwaith Cyfalaf

Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn mynegi amheuon am y diffyg elfen gwaith cyfalaf yn y cynllun sylfaenol, a'r effaith bellgyrhaeddol y gallai hyn ei chael ar yr economi wledig. Mae llawer o bobl ifanc yn arbennig wedi sicrhau incwm o wneud gwaith fel adeiladu waliau sych a phlygu gwrychoedd a ariannwyd gan Tir Gofal, ac mae diffyg yr elfen gwaith cyfalaf yn peryglu'r swyddi hyn.

Golyga cynigion Glastir bod ffermwyr sy'n mynd i gostau cyfalaf i gael eu talu gan ddefnyddio'r taliadau rheoli blynyddol, a chan fod y gwaith angenrheidiol yn aml yn ddrud, mae'n bosibl y bydd llawer o ffermwyr yn penderfynu peidio ag ymgeisio. **Felly dylai Llywodraeth Cymru ddarparu grantiau cyfalaf, i helpu â chostau sefydlu ar gyfer gwaith ar bob lefel cynllun Glastir, ac nid ar y lefel uwch yn unig fel sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd.**

Mae'r diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd ynghylch lle sydd i'w gynnwys o fewn elfen gyfalaf y cynllun lefel uwch a'r ffaith na fydd y taliadau cyntaf tan 2013 yn fygythiad pellach i swyddi.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru am unrhyw ddadansoddiad economaidd a wnaed ar effaith absenoldeb rhaglen gwaith cyfalaf yn lefel sylfaenol y cynllun ar yr economi wledig. Hefyd mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i rannu pob dadansoddiad o'r fath â rhanddeiliaid er mwyn lliniaru eu hofnau.

5) Tir Comin

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth eisoes am y trafferthion arbennig a oedd yn gysylltiedig â gweithredu cytundebau amaeth-amgylcheddol a rheoli tir ar dir comin, fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd.

Soniwyd am y mater eto yn ystod yr ymchwiliad Glastir, pan fu llawer o randdeiliaid yn holi a fyddai cynnig Llywodraeth Cymru i weinyddu taliadau drwy gymdeithasau pori yn llwyddo ai peidio. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith y bydd un neu ddau o borwyr yn parhau i fedru gwrthwynebu cyflwyno cynllun amaeth-amgylcheddol ar dir comin hyd yn oed os yw mwyafrif helaeth y porwyr eraill yn cefnogi cyflwyno cynllun o'r fath. Mae i hyn oblygiadau difrifol ar gyfer rheoli tiroedd comin, sy'n cynnwys llawer o'r safleoedd mwyaf amgylcheddol sensitif yng Nghymru.

Roedd rhanddeiliaid yn pryderu y byddai porwyr unigol mewn ardaloedd ucheldir sydd yn y gorffennol wedi cael taliadau uniongyrchol o dan gynllun Tir Mynydd ar eu colled yn ariannol mewn ardaloedd lle does dim cymdeithas bori ar waith cyn cyflwyno Glastir.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei fwriad i ddibynnu ar Gymdeithasau Pori ar gyfer gweithredu Glastir ar dir comin, ac y byddai modd sicrhau mwy o lwyddiant drwy weithredu'n gyflawn y Ddeddf Tir Comin 2006.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i ganfyddiadau'r Is-bwyllgor, a hyderaf y byddwch yn cymryd ein pryderon i ystyriaeth wrth i chi gadarnhau manylion y cynllun.

Yn gywir,

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig